

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri



Authors: Hilary Koll and Steve Mills

©The Basic Skills Agency, Commonwealth House,
1-19 New Oxford Street, London WC1A 1NU

Published January 2006

Awduron: Hilary Koll a Steve Mills

©Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Commonwealth House,
1-19 New Oxford Street, London WC1A 1NU

Cyhoeddwyd Ionawr 2006

Rhifau'n Cyfri



Fel rhiant gallwch wir helpu eich plentyn i gael cychwyn da mewn mathemateg, waeth pa mor dda neu wael yw'ch mathemateg chi!

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys llawer o syniadau syml. Gallwch helpu eich plentyn wrth wneud gweithgareddau bob dydd a chwarae gemau sy'n defnyddio eitemau bob dydd (fel darnau arian, siswrn, ac ati).

Efallai y synnwch at faint o fathemateg a wnewch mewn diwrnod...

Heddiw gallech fod wedi:

- gwirio amser rhaglen deledu mewn papur newydd
- edrych ar amserlen bws neu drên
- talu bil neu wedi edrych ar gyfriflen banc
- mesur rhywbeth wrth goginio neu addurno eich cartref
- cyfri eich newid wrth siopa.



Siaradwch â'ch plentyn am y rhifau sydd o'ch cwmpas

Gallwch eu gweld ar glochau, arwyddion, drysau, papurau newydd a chylchgronau, ffonau, mewn ceir... ym mhobman bron!




Chwaraewch gemau gyda'ch plentyn

Mae sawl gêm fwrdd yn helpu gyda chyfri, adio a thynnu.



Gadewch i'ch plentyn eich helpu gyda phethau bob dydd

fel siopa, ysgrifennu rhestri, gosod glochau, gosod y bwrdd, a choginio hyd yn oed...



Ymunwch â'ch plentyn pan fydd yn chwarae

gan gyfri briciau, chwarae gyda siapiau, rhannu pethau, adeiladu tyrau gyda blociau...



Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mwynhau chwarae'r gemau hyn gyda chi. Penderfynwch pa weithgareddau sydd orau i'ch plentyn yn eich barn chi ac y byddant yn gallu eu gwneud. Mae plant yn amrywio llawer yn yr hyn y gallant ei wneud felly rydym wedi marcio'r syniadau yn y pecyn hwn:

hawdd

ddim mor hawdd

mwly anodd

a i'ch helpu.

Yn anad dim, mwynhewch!

Mae pawb yn dysgu orau pan fyddant yn cael hwy!

Yn y cartref



Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu plant i: **gyfri.**

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Syniadau am weithgareddau yn y cartref

Cyfri i lawr

Defnyddiwch oriawr neu amserydd i helpu eich plentyn i ymarfer cyfri yn ôl. Gosodwch yr amserydd ar 20 eiliad a gofynnwch i'ch plentyn gyfri y rhifau fel y'u dangosir, neu defnyddiwch amserydd microdon pan yn coginio eu te.



hawdd

Prydau chwarae

hawdd

Mae plant yn hoff o ddychmygu. Drwy ddefnyddio tedis a doliau, gall plant ddychmygu cael parti. Rhannwch lwyau rhwng teganau.



Gofynnwch gwestiynau fel:

- Oes gennym fwy o lwyau na theganau?
- Oes mwy o deganau na llwyau?
- Sawl llwy rwyd ti'n ei dal?
- Faint sydd ar ôl yn y drôr?
- Oes digon ar gyfer tair llwy yr un?
- Sut rwyd ti'n gwybod?
- Faint fyddai gen ti pe baet yn rhoi dwy yn ôl yn y drôr?

Yn y gegin

hawdd

Defnyddiwch gynhwysydd bach a mawr, fel cwpan a thebot.

Gofynnwch: *Sawl cwpanaid o ddŵr rwyd ti'n credu bydd yn llenwi'r tebot?*

Yna canfyddwch beth yw'r ateb!




Dringo'r grisiau

hawdd

Gofynnwch i'ch plentyn gyfri grisiau wrth eu dringo bob tro.

Ysgrifennwch rifau ar ddarnau bach o bapur a gofynnwch i'ch plentyn roi un ar bob gris.

Gallech eu dringo fesul dau a chyfri fesul dau!



Coginio

ddim mor hawdd

Cyfrwch faint o fysedd pysgod neu selsig sydd eu hangen. Gwnewch gacennau neu fisgedi syml. Helpwch eich plentyn i bwysu'r bwyd neu'r cynhwysion.

Gofynnwch: *Faint y byddai ei angen arnom pe baem yn dyblu'r cynhwysion?*



Yn y stryd 1



Mae'r gemau hyn yn helpu plant i: **gyfrif ac adnabod rhifau.**

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Syniadau wrth gerdded yn y stryd

Rhifau yn y stryd

- Edrychwch am rifau tai neu fflatiau wrth i chi fynd heibio iddynt.
- Edrychwch am batrymau yn y rhifau; ydynt yn cynyddu fesul un neu fesul dau?
- Trafodwch a yw'r rhifau yn **eilrifau** (gorffen â 0, 2, 4, 6 neu 8) neu'n **odrifau** (gorffen â 1, 3, 5, 7 neu 9).

hawdd

- Os oes patrwm, gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu pa rif sy'n dod nesaf.
- Amlygwch rifau ar fysiau, arwyddion ffordd a phlatiau rhifau ceir.
- Dywedwch faint o'r gloch ydyw wrth fynd heibio i gloc yn y stryd.



Faint?

- Dewiswch liw, e.e. coch. Wrth i chi gerdded, cyfrwch faint o geir coch a welwch. Wrth i chi weld car newydd defnyddiwch y geiriau 'un arall', fel 'Rydym wedi gweld tri char coch ac mae un arall yn gwneud pedwar.'
- Gallech gyfri adar, awyrennau, pobl neu anifeiliaid yn lle hynny.

hawdd



Cyfri camau

- Wrth gerdded, gallwch ofyn i'ch plentyn gyfri ei gamau. 'Sawl cam arall nes i ti gyrraedd y blwch postio?'
- Anogwch eich plentyn i barhau i gerdded. Dywedwch y gallant gael, er enghraifft, 5c ar ôl nifer penodol o gamau – fel ar ôl 10, 20, 50 neu hyd yn oed 100 o gamau! Gofynnwch iddynt adio faint o arian yr ydych wedi ei roi iddynt.
- Ceiswch hopian hefyd!

hawdd



Yn y stryd 2



Mae'r gemau hyn yn helpu plant i:
gyfri a chymharu meintiau.


Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Rhagor o syniadau wrth gerdded yn y stryd

Dringo grisiau

- Gofynnwch i'ch plentyn gyfri grisiau wrth eu dringo bob tro.
- Gallech eu dringo fesul dau a chyfri fesul dau!
- Ewch i lawr un grisiau a chyfri'n ôl un!



hawdd

Cymharu

Gallwch ddefnyddio geiriau fel mwyaf/lleiaf, hiraf/byrraf, talaf/byrraf, lletaf/mwyaf cul.

Edrychwch ar barau o bethau yn y stryd.

Gofynnwch i'ch plentyn eu cymharu.


- Pa bostyn yw'r talaf?
- Pa fainc yw'r lletaf?
- Pa lori yw'r hiraf?



hawdd

Arwydd da

Wrth siopa, gall eich plentyn ennill pwynt os bydd yn gweld arwydd gyda chwe llythyren yn union, e.e. DIXONS, neu 10 llythyren, e.e. WOOLWORTHS, ac ati.



ddim mor hawdd

Ar daith 1



Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu plant i:
gyfri, adnabod rhifau a'u hysgrifennu.

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Syniadau i dreulio'r amser ar daith car, bws neu drên

hawdd

Sylwch ar y camgymeriad!

Mae plant wrth eu bodd pan fydd oedolion yn cael pethau'n anghywir!

Gwelwch os gallant sylwi ar eich camgymeriadau cyfri.

- Cyfrwch ymlaen neu'n ôl fesul 1, 2, 5 neu 10.

- Gwnewch gamgymeriad weithiau – methwch rif neu newidwch le dau rif.

10, 9, 8, 6, 5...

1, 2, 4, 3, 5, 6...

20, 30, 40, 60, 70...

- Gofynnwch i'ch plentyn weiddi pan fydd yn eich clywed yn gwneud camgymeriad.



hawdd

Ymestyn llaw allan!

Chwaraewch y gêm hon pan fyddwch yn eistedd gerllaw eich plentyn.

- Mae chwaraewr yn cau ei lygaid ac yn ymestyn llaw allan, gyda'r gledr tuag i fyny.
- Yn araf, mae'r chwaraewr arall yn llunio rhif gyda'i fys ar y gledr (0, 1, 2, 3, 4, 5, 6, ...).



- Rhaid i'r chwaraewr ddyfalu pa rif sydd wedi'i lunio.
- Ysgrifennwch rifau mwy ar gyfer plant hŷn.

hawdd

Caneuon cyfri

Dywedwch odlau neu ganwch ganeuon rhifau, fel '1 bys, 2 fys, 3 bys yn dawnsio' neu '1, 2, 3, Mam yn dal y pry ...'



neu 'Un llaw i fyny, un llaw i lawr'

Mae cyfri i gyd-fynd â sychwyr ffenestri car hefyd yn gallu bod yn hwyl. Gallwch ddefnyddio eich dwylo a'ch bysedd i helpu'r cyfri.

Ar daith 2



Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu plant i:
gyfri, adnabod rhifau a'u hysgrifennu, ac amcangyfrif amser a phellter.

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Rhagor o syniadau i dreulio'r amser ar daith

Pa mor hir yw munud?

ddim mor hawdd

Os oes gennych gloc neu oriawr, gofynnwch i blant ddyfalu pa mor hir yw munud yn 'dechrau o NAWR!' Dylai'r plant weiddi 'STOP!' pan fyddant yn credu bod munud wedi mynd heibio.




Pa mor bell yw cilometr (neu filltir)?

mwy anodd

Mewn car, gallai plant hŷn ddyfalu pryd y maent yn credu eu bod wedi teithio cilometr (neu filltir) yn 'dechrau o NAWR!'

Gallai plant hefyd ddyfalu eich cyflymder!



'Rwy'n gweld tri o rywbeth. Beth gallent fod?'

ddim mor hawdd

Chwaraewch y gêm hon ar fws neu drên.

Edrychwch am eitemau sy'n debyg, fel tri llyfr, pedwar arwydd, chwe pherson, dau blentyn ac ati. Gallai eitemau eraill fod yn hetiau, bagiau, seddau, papurau newydd.



Ffenestr sydd wedi stemio

hawdd

ddim mor hawdd

Pan fyddwch yn eistedd ger ffenestr sydd wedi stemio (neu pan fydd gan eich plentyn bapur a phensil) galwch rifau allan a gofynnwch i'ch plentyn eu hysgrifennu.

Yn dibynnu ar y rhif a ddewisir.



Hela a chyfri



Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i:
gyfri ac ysgrifennu rhifau.

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Faint yn eich cartref?


tapiau



drysau



setiau teledu



tedis



soffas



gwelyau



lampau



stepiau neu risiau



tuniau o fwyd



llwyau



cadeiriau breichiau



switsys golau



Beth i'w wneud

hawdd

- Gofynnwch i'ch plentyn chwilio eich cartref i gyfri faint o bob eitem sydd.
- Helpwch eich plentyn i ysgrifennu'r rhif, e.e. 4, o dan bob llun.
- Os nad oes eitem yn eich cartref, defnyddiwch y symbol 0 a dywedwch y gair 'sero'.

Beth i'w ofyn

Oes gennym fwy o welyau na thapiau? neu . . . mwy o setiau teledu na thedis?

Beth arall?

hawdd

Cuddiwch nifer o eitemau o amgylch eich ystafell neu gartref, fel 10 bloc neu lwy. Gofynnwch i'ch plentyn chwilio am yr holl bethau yr ydych wedi'u cuddio, a'u cyfri wrth iddo ddod o hyd iddynt.

Y gêm weithgaredd




Mae'r gêm hon yn helpu plant i:
gyfri,
symudiadau
a synau.

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Gosodwch eich darnau chwarae yma i ddechrau



Beth i'w wneud

hawdd

Mae angen eitem fach ar bob chwaraewr fel darn chwarae, e.e. darn arian neu ddarn bach o bapur.

- Cymerwch eich tro i ddewis rhif rhwng un a chwech, neu un a deg ar gyfer plant hŷn. (Os oes gennych ddis gellir ei rolïo yn lle hynny.)
- Symudwch y darn chwarae ymlaen y nifer hwnnw o leoedd.
- Rhaid i'r chwaraewr berfformio'r weithred a ddangosir y nifer hwnnw o weithiau, e.e. neidio pedair gwaith neu ddweud 'helo' pum gwaith.
- Os gwna hynny'n gywir, mae'n ennill pwynt.
- Yr enillydd yw'r person gyntaf gyda 10 pwynt. (Rhowch wobr i'r enillydd!)

Awgrym: Mae plant wrth eu bodd pan fydd oedolyn yn gwneud camgymeriad!

Beth arall?

hawdd

Chwaraewch gêm 'faint?'. Gwnewch sawl symudiad, fel y rheiny uchod, a gofynnwch i'ch plentyn ddweud sawl symudiad yr ydych wedi'i wneud.

Awn i siopa!



Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i:
adio a thalu gyda darnau arian.

Numbers Count
 Rhifau'n Cyfri

123



Beth i'w wneud

ddim mor hawdd

- Rhowch rhwng 30c a 50c i'ch plentyn gan ddefnyddio darnau 1c, 2c, 5c a 10c.
- Torrwch allan y cardiau a'u rhoi wyneb i fyny.

Gofynnwch i'ch plentyn ddevis cerdyn a thalu amdano, gan ddefnyddio'r darnau cywir. Rhowch newid os oes angen.

Beth i'w ofyn

- Faint o newid sydd ei angen arnoch?
- Beth yw'r rhataf, y trên neu'r tedi?

Beth arall?

mwy anodd

Gofynnwch i'ch plentyn ddevis paruau o gardiau, e.e. pensil a thrên, a chyfrifo'r cyfanswm, e.e. mae 1c a 5c yn 6c. Os yw'n gywir, maent yn cadw'r cardiau.

Wyau wedi'u ffrio



Mae'r gêm hon yn helpu plant i:
ddweud rhif sydd rhwng dau arall.

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Rhowch ddarnau 1c neu 5c ar y melynwyau



ddim mor hawdd

Beth i'w wneud:

- Rhowch ddarnau arian ar y melynwyau.
- Cymerwch eich tro i ddewis darn arian a dyfalu pa rif sydd oddi tano.
- Mae'r chwaraewr yn cadw'r darn arian os yw'n gywir.
- Yr enillydd yw'r person sydd â'r nifer mwyaf o ddarnau arian ar y diwedd.

Beth i'w ofyn

Pa rif sy'n dod rhwng 19 a 21?

Beth arall?

mwy anodd

Cyfrwch rifau'r melynwyau, 2, 5, 8, 11... sy'n cyfri fesul tri, yn dechrau gyda dau.

Rhowch ddarnau ar 10, 20 a 30 i ymarfer cyfri* fesul deg.

Bwrdd i bowlen




Mae'r gêm hon
yn helpu plant i:

**wybod rhifau
sy'n adio i
wneud 10.**

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123



Beth i'w wneud

hawdd

- Dechreuwch gyda 10 afal (neu ddarnau chwarae, cnau, ayb). Rhowch bump mewn powlen a phump ar y bwrdd.
- Cymerwch eich tro i daflu darn arian.
- Os yw'n ben, symudwch un afal o'r bwrdd i'r bowlen.
- Os yw'n gynffon, symudwch un afal o'r bowlen i'r bwrdd.
- Gofynnwch i'ch plentyn ddweud faint sydd yn y bowlen a faint sydd ar y bwrdd ar ôl pob tro.
- Yr enillydd yw'r chwaraewr sy'n cael yr holl afalau yn y bowlen yn ystod ei dro.

Beth arall?

**ddim mor
hawdd**

Gallech ysgrifennu faint sydd yn y bowlen a faint sydd ar y bwrdd yn ystod pob tro. Tynnwch sylw at y rhifau sydd â chyfanswm o 10 bob tro.


Gêm fygiau



Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i:
adio a thynnu.

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123



ddim mor hawdd

Beth i'w wneud

- Rhowch fwg rhyngoch chi. Bydd angen cnau neu resins arnoch.
- Gofynnwch i'ch plentyn gyfri 20 o gnau a rhesins a'u rhoi yn y mwg. (Bydd angen rhai ychwanegol arnoch hefyd!)
- Symudwch ddarn arian neu ddarn chwarae o amgylch, un lle ar y tro.
- Gofynnwch i'ch plentyn ddilyn y cyfarwyddiadau ar y cylch bob tro. Ar ôl pob tro, gofynnwch 'Faint sydd yn y mwg nawr?'

Beth i'w ofyn:

- Oes mwy na phan ddechreuon ni?
- Wyt ti'n credu bod yna fwy na 10 neu lai na 10?
- Roedd 18 gennym ni a nawr rwy't ti wedi bwyta dau. Faint yw hynny?

ddim mor hawdd

Beth arall?

Dechreuwch gyda 21 o gnau neu resins gan weld faint sydd ar ôl.

Odrifau ac eilrifau




Mae'r pos hwn
yn helpu plant
gydag:
**odrifau ac
eilrifau.**

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123

Mae odrifau yn gorffen â 1, 3, 5, 7, 9.
Mae eilrifau yn gorffen â 0, 2, 4, 6, 8.



Beth i'w wneud

ddim mor
hawdd

Gofynnwch i'ch plentyn
liwio'r odrifau mewn un lliw,
e.e. glas, a'r eilrifau mewn
lliw gwahanol, e.e. coch.

Chwaraewch y gêm hon

mwya
anodd

Dechreuwch gyda phum
bywyd.

Rhowch ddarn chwarae ar y
cylch dechrau.

Symudwch y darn ar hyd y
llinellau.

Bob tro rydych yn cyrraedd
odrif rydych yn colli bywyd.

Allwch chi gyrraedd y
diwedd heb gollu eich
bywydau i gyd?

Sawl llwybr gwahanol y
gallwch ddod o hyd iddynt?


Llinell amser



Mae'r
gweithgaredd
hwn yn helpu
plant gyda:
**dyddiadau,
adio a thynnu.**

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri

123



Beth i'w wneud

- Nodwch unrhyw ddyddiadau arbennig.
- Siaradwch â'ch plentyn am unrhyw ddyddiadau arbennig yn ystod y blynyddoedd hyn.
Pryd cest ti dy eni?
Pryd cafodd dy frodyr a dy chwiorydd eu geni?
- Nodwch y digwyddiadau hyn ar y llinell amser.

(Gallai ddigwyddiadau eraill gynnwys symud tŷ, symud ystafell wely, priodasau, neu ddigwyddiadau eraill yn y byd.)

Beth i'w ofyn

- *Sawl blwyddyn yn ôl y cest ti dy eni?*
- *Sawl blwyddyn oedd hynny ar ôl i dy frawd gael ei eni?*
- *Pa mor hen oeddwn i yn 2002?*
- *Sawl blwyddyn sydd rhwng 1996 a 2001?*

Beth arall?

Efallai y bydd plant iau yn ei chael yn haws os ydych yn dylunio eich siart eich hun am un diwrnod (er enghraifft, mēwn blociau awr) neu am un wythnos.